

Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Priory Healthcare

Tŷ Cwm Rhondda

Cilliad a Clydwch

Dyddiad arolygu: 5 - 7 Tachwedd 2018

Dyddiad cyhoeddi: 8 Chwefror 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	23
4.	Beth nesaf?	26
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol	28
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	29
	Atodiad B – Cynllun gwella	30

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o wasanaeth iechyd meddwl annibynnol yn ysbyty Tŷ Cwm Rhondda ar noson 5 Tachwedd 2018, a'r diwrnodau canlynol, sef 6 a 7 Tachwedd. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Cilliad - Diogelwch Isel
- Clydwch - Diogelwch Isel

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd o AGIC, tri adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un ohonynt oedd yr adolygwr enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygwr lleig. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennaeth i gleifion a gadwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000, gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Lle y bo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Rhoddwyd pwyslais ar leihau arferion cyfyngol er mwyn helpu'r cleifion i wella a helpu'r cleifion i gynnal a datblygu eu sgiliau.

Mae angen gwneud gwelliannau sylweddol er mwyn sicrhau bod y darparwr cofrestredig yn cyflawni cyfrifoldebau statudol y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion gan ddangos parch
- Rhoi pwyslais ar leihau arferion cyfyngol er mwyn helpu'r cleifion i wella a helpu'r cleifion i gynnal a datblygu eu sgiliau
- Trefniadau llywodraethu sefydledig er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol
- Arweinyddiaeth agored a gonest gyda gweithlu cydweithredol
- Lefel uchel o gydymffurfiaeth o ran hyfforddiant gorfodol, goruchwyliaeth ac arfarniadau

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cyflawni ei gyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl

- Cynlluniau Gofal a Thriniaeth y cleifion er mwyn sicrhau bod pob un ohonynt yn cynnwys amcanion CAMPUS/SMART¹
- Yr amgylchedd gofal (fel y nodwyd eisoes yn rhaglen adnewyddu'r darparwr)

Nodwyd achosion o dorri rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn o ran cyflawni cyfrifoldebau statudol y Ddeddf Iechyd Meddwl. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at roi hysbysiad diffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd, os nad yw'n gwneud hynny, gallai arwain at beidio â chydymffurfio â rheoliadau.

¹ Datganiad yw amcan sy'n disgrifio'r hyn y mae unigolyn, tîm neu sefydliad yn gobeithio ei gyflawni. Mae amcanion yn rhai 'CAMPUS' os ydynt yn gyraeddadwy, yn amserol, yn fesuradwy, yn benodol, yn uchelgeisiol ac yn synhwyrol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Tŷ Cwm Rhondda wedi'i gofrestru i ddarparu ysbyty iechyd meddwl diogelwch isel annibynnol i ddynion yn Tyntyla Ave, Ystrad, Tonypandy, Pentre CF41 7SU. Mae'r ysbyty yn cynnwys dwy ward â 10 gwely: Cilliad a Clydwch. Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru am y tro cyntaf ym mis Hydref 2007.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys Cyfarwyddwr yr Ysbyty, tîm o nyrsys iechyd meddwl cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd, nyrs practis, therapydd galwedigaethol a chynorthwyywyr therapi galwedigaethol, seicolegydd, gweithiwr cymdeithasol a seiciatrydd.

Cânt eu cefnogi gan dîm o staff gweinyddol, staff arlwyo, staff domestig a pherson cynnal a chadw.

Cefnogir yr ysbyty gan strwythurau rheoli a threfniadol The Priory Group.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod staff yn yr ysbyty cyfan yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch.

Roedd yr ysbyty yn darparu cyfleoedd hybu, diogelu a gwella iechyd i'r cleifion a gefnogir gan ystod dda o gyfleusterau yn yr ysbyty ac yn y gymuned leol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr ystod lawn o wybodaeth ar gael i'r cleifion ar y ddwy ward.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd amrywiaeth o wybodaeth a mentrau ym maes hybu, diogelu a gwella iechyd ar gael i'r cleifion yn ysbyty Tŷ Cwm Rhondda a oedd yn helpu i gynnal a gwella eu llesiant.

Roedd rôl i nyrs practis yn ysbyty Tŷ Cwm Rhondda a oedd yn cael ei llenwi gan aelod o staff a oedd yn nyrs gyffredinol gofrestredig. Roedd y cleifion wedi'u cofrestru â phractis meddygon teulu yn y gymuned leol. Gallai'r cleifion hefyd gael gwasanaethau deintyddol a gweld gweithwyr iechyd corfforol proffesiynol eraill yn ôl yr angen. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos tystiolaeth o asesiadau corfforol a gwaith monitro manwl a phriodol.

Roedd gan yr ysbyty therapydd galwedigaethol llawn amser a dau gynorthwydd therapi galwedigaethol. Roedd pob claf a gâi ei dderbyn i'r ysbyty yn cael ei asesu gan therapydd galwedigaethol. Ar ôl yr asesiad, roedd y cleifion yn cael amserlen unigol a oedd yn cynnwys gweithgareddau therapiwtig amrywiol, gan gynnwys grŵp clywed lleisiau ac ymwybyddiaeth o gyffuriau ac alcohol. Roedd amserlenni gweithgareddau unigol y cleifion yn gysylltiedig ag amserlenni cyfleusterau'r ysbyty ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu ac yna eu diweddarw bob 12 wythnos.

Roedd amrywiaeth o gyfleusterau da ar gael er mwyn darparu therapïau a gweithgareddau, gan gynnwys ardal gymdeithasol a elwir yn Piazza a oedd yn cynnwys bwrdd pŵl a siop i'r cleifion, ynghyd ag ystafell gyfrifiaduron, ystafell

gelf, cegin therapi galwedigaethol ac ystafell gwaith coed/cynnal a chadw. Roedd campfa yn yr ysbyty hefyd ond roedd angen gosod llawr newydd am fod y llawr presennol yn anwastad ac wedi treulio. Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig fod cynlluniau i osod llawr newydd o fewn y misoedd nesaf.

Gallai'r cleifion, ar ôl cael yr awdurdod gofynnol, ddefnyddio ystod eang o gyfleusterau hamdden ac addysg yn y gymuned fel rhan o'u gofal yn yr ysbyty. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos eu bod yn cael cymorth i ddilyn cyrsiau addysg yn y coleg lleol a lleoliadau gwaith gwirfoddol fel rhan o'u gofal adsefydlu.

Roedd y cleifion a'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am y trefniadau o ran gweithgareddau a therapïau ac roeddent yn teimlo bod yr ysbyty'n gallu hwyluso ystod eang o weithgareddau ar gyfer y cleifion.

Urddas a pharch

Drwy'r ysbyty cyfan, roedd yr holl staff a welsom yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo'n angerddol am eu rolau ac yn frwdfrydig ynghylch y ffordd roeddent yn cefnogi ac yn gofalu am y cleifion. Ar y cyfan, roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wedi canmol staff yr ysbyty.

Clywsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd digynnwrf drwy gydol ein harolygiad. Gwelsom y staff yn trin y cleifion â pharch, gan gynnwys rhyngweithio'n brydlon ac yn briodol, mewn ymgais i atal ymddygiad cleifion rhag mynd yn fwy difrifol. Pan oedd cleifion yn mynd at aelodau o staff roeddent yn cael eu trin mewn ffordd gwrtais ac ymatebol.

Roedd tystiolaeth glir o arferion staff a pholisïau a oedd yn anelu at Leihau Arferion Cyfyngol. Roedd hyn yn helpu i gynnal urddas y cleifion a gwella'r gofal unigol a roddir i'r cleifion. Roedd cyfarfodydd sefydliadol rheolaidd yn cael eu cynnal mewn perthynas â lleihau arferion cyfyngol a oedd yn rhoi cyfle i adolygu a thrafod arferion a fyddai'n lleihau'r cyfyngiadau ar y cleifion yn seiliedig ar waith ymchwil a risgiau.

Roedd Datganiad o Ddiben y darparwr cofrestredig hefyd yn disgrifio sut y byddai staff yr ysbyty yn helpu'r cleifion mewn ffyrdd a fyddai'n cynnal eu preifatrwydd a'u hurddas.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun. Roedd cleifion yn gallu cloi drysau eu hystafelloedd gwely eu hunain, y gallai'r staff eu datgloi os oedd angen. Roedd cyfleusterau en suite yn ystafelloedd gwely'r cleifion a oedd yn cynnwys toiled, sinc a chawod. Gwelsom nifer o ystafelloedd gwely ac roedd yn amlwg

bod modd i gleifion bersonoli eu hystafelloedd gwely. Roedd digon o le i gleifion storio eu heiddo personol yn eu hystafelloedd. Roedd unrhyw eitemau oedd yn cael eu hystyried yn beryglus i gleifion, fel raseli, caniau erosol ac ati yn cael eu storio'n ddiogel ac yn drefnus ar bob ward a gallai'r cleifion ofyn amdanynt yn ôl yr angen.

Roedd paneli arsylwi yn nrysau'r ystafelloedd gwely fel y gallai'r staff arsylwi ar y cleifion heb agor y drws ac amharu arnynt o bosibl. Roedd hi'n gadarnhaol nodi bod y paneli arsylwi ar gau a'u bod yn cael eu hagor er mwyn arsylwi cyn eu cau drachefn. Roedd hyn yn helpu i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Fodd bynnag, nodwyd bod rhai cleifion wedi hongian tywel dros eu drws ar y tu allan er mwyn atal goleuadau'r coridor rhag mynd i mewn i'r ystafelloedd drwy'r paneli arsylwi yn ystod y nos ac amharu ar eu cwsgr. Gallai hyn rwystro'r staff rhag arsylwi ar y cleifion os oedd y tywel hefyd yn gorchuddio'r panel arsylwi y tu mewn i'r ystafell. Mae angen i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad yw goleuadau'r coridorau yn tarfu ar y cleifion heb gyfyngu ar y gallu i edrych drwy'r paneli arsylwi.

Roedd trefniadau addas ar waith ym mhob un o'r wardiau i alluogi'r cleifion i wneud a derbyn galwadau ffôn yn breifat. Yn dibynnu ar eu hasesiadau risg unigol, gallai'r cleifion ddefnyddio eu ffonau symudol pan roeddent i ffwrdd o'r ysbyty. Roedd y cleifion yn llofnodi contract ffôn symudol gyda'r darparwr cofrestredig i gytuno ar delerau defnyddio gan gadarnhau na fyddent yn camddefnyddio'r ffôn symudol a chaniatáu i'r staff fonitro cynnwys y ffonau a'u defnydd ohonynt.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad yw'r cleifion yn cyfyngu ar yr hyn y gellir ei weld drwy'r paneli arsylwi.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd amrywiaeth o wybodaeth ar gael yn yr ysbyty. Roedd hysbysfyddau ar y wardiau yn dangos gwybodaeth fanwl a pherthnasol i'r cleifion. Roedd gwybodaeth ar gael yn y dderbynfa i berthnasau ac ymwelwyr eraill â'r ysbyty. Fodd bynnag, roedd manylion cyswllt AGIC yn anghywir yn y wybodaeth a oedd ar gael i'r cleifion.

Roedd ystod ehangach o wybodaeth yn cael ei harddangos yn ward Cilliad na ward Clydwch; mae hyn yn golygu bod llai o wybodaeth ar gael i'r cleifion yn ward Clydwch.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y wybodaeth i'r cleifion ac ymwelwyr yn gyfredol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr ystod lawn o wybodaeth yn cael ei harddangos yn y ddwy ward.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â'r cleifion. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas i'r claf unigol. Lle roedd y cleifion yn cael anhawster o hyd i egluro rhywbeth, neu lle roedd yr hyn roeddent yn ceisio ei gyfleu yn cael ei gamddeall, byddai'r staff yn gofyn yn amyneddgar am eglurhad o'r hyn yr oedd wedi'i ddweud.

Roedd y ddwy ward yn cynnal cyfarfodydd cynllunio dyddiol er mwyn trefnu'r gweithgareddau, yn yr ysbyty ac yn y gymuned, ynghyd â gweithgareddau a chyfarfodydd eraill, fel cyfarfodydd cynllunio gofal, tribiwnlysoedd, apwyntiadau meddygol ac ati.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai'r cleifion gael cymorth gan gyrff allanol i roi cymorth ac arweiniad, megis cyfreithwyr neu wasanaeth eirioli. Gyda chytundeb y cleifion, lle bynnag y bo modd, roedd eu teuluoedd a'u gofalmwr hefyd yn cael eu cynnwys mewn rhai cyfarfodydd.

Gwelsom gleifion unigol yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal, ac roedd hyn wedi'i ddogfennu yn eu cofnodion hefyd.

Cynllunio a darparu gofal

O safbwynt cynllunio gofal ac ymarfer yn y wardiau a'r ysbyty, roedd pwyslais clir ar adsefydlu gyda gofal wedi'i addasu i gleifion unigol a'i gefnogi gan yr egwyddor o leihau arferion cyfyngol.

Roedd gan bob claf ei gynllunydd gweithgareddau wythnosol ei hun, a oedd yn cynnwys sesiynau unigol a grŵp, a gynhelir yn yr ysbyty ac yn y gymuned (pan oedd ei angen, roedd awdurdodiad wedi cael ei roi).

Fel y nodir uchod, roedd y gweithgareddau'n amrywiol ac yn canolbwyntio ar adfer, naill ai yn yr ysbyty neu yn y gymuned. Roedd cyfranogiad cleifion unigol mewn gweithgareddau yn cael ei fonitro a'i archwilio. Roedd cyfranogiad mewn gweithgareddau yn cael ei archwilio'n rheolaidd a byddai'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i gynllunio gweithgareddau ar gyfer pob chwarter.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd ymarfer y staff, a oedd yn gyson â pholisïau a systemau sefydledig yr ysbyty, yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal.

Roedd papurau cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi'u cwblhau'n gywir er mwyn cadw cleifion yn yr ysbyty. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig wneud gwelliannau i'r ffordd y caiff y Ddeddf ei chymhwyso (yn ysbyty Tŷ Cwm Rhondda ac ysbytai eraill The Priory Group) er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan y Ddeddf ac fel y'u nodwyd yng Nghod Ymarfer Cymru 2016 ar y Ddeddf Iechyd Meddwl. Amlinellir y rhain yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Roedd cyfarfodydd rheolaidd â chleifion yn cael eu cynnal er mwyn galluogi'r cleifion i roi adborth ar y gofal a ddarperir yn yr ysbyty. Roedd yr ysbyty hefyd yn cynnal arolygon o gleifion a oedd yn galluogi'r gwasanaeth i ddatblygu gan ddefnyddio'r adborth a ddarparwyd.

Roedd polisi a gweithdrefn gwyno ar waith yn yr ysbyty. Mae'r polisi yn cynnig strwythur i ymdrin â chwynion cleifion am wasanaethau yn ysbyty Tŷ Cwm Rhondda. Gwnaethom adolygu sampl o gwynion a gwelwyd eu bod wedi cael eu trin yn unol â pholisi'r darparwr cofrestredig.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd rhaglen adnewyddu wedi dechrau yn yr ysbyty. Roedd yr ysbyty mewn cyflwr da a oedd yn sicrhau diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Roedd trefniadau llywodraethu clinigol sefydledig yn yr ysbyty a oedd yn helpu'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod y darparwr cofrestredig yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf a sicrhau bod ymarfer yn cyd-fynd â'r canllawiau a nodir yn y Cod.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd prosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau, a chynnal iechyd a diogelwch yn ysbyty Tŷ Cwm Rhondda. O safbwynt cynllunio gofal ac ymarfer yn y wardiau a'r ysbyty, roedd yr ysbyty yn darparu gofal wedi'i addasu i gleifion unigol a'i gefnogi gan yr egwyddor o leihau arferion cyfyngol.

Roedd gan yr ysbyty restr o eitemau gwaharddedig ac roedd loceri â chloeon arnynt er mwyn storio unrhyw eitemau nad oeddent yn cael eu caniatáu y tu hwnt i dderbynfa'r ysbyty, e.e. ffonau symudol, tanwyr sigarêts, hylifau fflamadwy ac ati.

Roedd mannau galw am nyrs hefyd o amgylch y wardiau ac yn ystafelloedd gwely'r cleifion er mwyn i'r cleifion alw am gymorth os oedd angen. Roedd y staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio i alw am gymorth os oedd ei angen. Roedd system ar waith i ddyrannu larymau i'r staff ac ymwelwyr.

Ar y cyfan, roedd yr ysbyty mewn cyflwr da a oedd yn sicrhau diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr. Roedd hi'n gadarnhaol nodi bod y rhaglen i adnewyddu'r ysbyty wedi dechrau. Roedd y staff yn gallu rhoi gwybod am broblemau amgylcheddol i berson cynnal a chadw dynodedig yr ysbyty a oedd yn cadw cofnod o broblemau, y gwaith yr oedd ei angen a phryd y cafodd gwaith ei gwblhau.

Roedd y wardiau'n cael dodrefn newydd fel rhan o'r rhaglen adnewyddu. Roedd asesiadau risg diweddar ar gael mewn perthynas â phwyntiau clymu. Roedd y rhain yn nodi pwyntiau clymu posibl a pha gamau oedd wedi cael eu cymryd i ddileu neu reoli'r rhain. Fodd bynnag, er bod y darparwr cofrestredig wedi nodi nifer o bwyntiau clymu ac wedi ymrwymo i fynd i'r afael â nhw, nid oedd disgwyl i'r gwaith cynnal a chadw gael ei gwblhau tan fis Rhagfyr 2020. Teimlwn fod yr amserlen hon yn annerbyniol ac mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig roi blaenoriaeth i gael gwared ar y pwyntiau clymu penodol a drafodwyd yn ystod ein hadborth ar yr arolygiad.

Roedd y darparwr cofrestredig yn cynnal archwiliadau diogelwch tân ac ymarferion tân yn rheolaidd. Roedd angen rhoi sylw i un drws tân ar ward Clydwch er mwyn sicrhau y gellid ei agor yn hawdd. Roedd y darparwr cofrestredig wedi nodi hyn ac roedd yn aros i'r gwaith gael ei gwblhau.

Roedd system electronig sefydledig ar waith i gofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Cofnodwyd digwyddiadau ar y system a oedd yn cynnwys enw'r claf neu'r cleifion a'r staff dan sylw, disgrifiad, lleoliad, amser a hyd y digwyddiad. Roedd unrhyw ddefnydd o ddulliau atal corfforol yn cael ei ddogfennu, gan gynnwys pwy oedd dan sylw ac osgo corff pob person dan sylw.

Roedd hierarchaeth ar waith o ran ymdrin â digwyddiadau a oedd yn sicrhau bod adroddiadau am ddigwyddiadau yn cael eu hadolygu'n amserol gan aelod o'r tîm clinigol sydd ynghlwm wrth ofal y claf unigol a chyflogai sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch yn yr ysbyty.

Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu paratoi a'u hadolygu'n rheolaidd ar lefel yr ysbyty a'r sefydliad fel y gellid eu hadolygu a'u dadansoddi. Gellid llunio adroddiadau ychwanegol i edrych ar feysydd penodol yn ôl yr angen. Roedd y system a'r amserlenni ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu cofnodi, eu hadolygu a'u monitro er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel yn ysbyty Tŷ Cwm Rhondda.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddarparu amserlenni diwygiedig ar gyfer y gwaith i gael gwared ar y pwyntiau clymu a nodwyd.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau bod y gwaith gofynnol wedi cael ei gwblhau ar y drws tân yn ward Clydwch.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd systemau archwilio rheolaidd a sefydledig ar waith mewn perthynas â rheoli heintiau. Cwblhawyd yr archwiliadau hyn gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella fel bod modd cymryd camau priodol lle y bo angen. Cadarnhaodd y staff fod amserlenni glanhau ar waith er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac effeithiol yn yr ysbyty a'u bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau.

Roedd cynhyrchion hylendid dwylo ar gael mewn ardaloedd perthnasol. Fodd bynnag, roedd angen atgyweirio'r uned hylendid dwylo yn ystafell glinig Cilliad neu osod un newydd yn ei lle am nad oedd y staff yn gallu ei hail-lenwi. Roedd Cyfarpar Diogelu Personol ar gael i'r staff yn ôl y gofyn hefyd.

Fodd bynnag, nid oedd gwely archwilio yn yr ysbyty, felly pe bai angen i'r cleifion orwedd i lawr er mwyn cael archwiliad, byddai'n rhaid iddynt wneud hynny yn eu hystafelloedd gwely. Mae cynnal archwiliadau mewn ystafelloedd gwely yn hytrach na chlinig â dodrefn pwrpasol sy'n cael ei lanhau'n rheolaidd yn peri risg bosibl o ran rheoli heintiau.

Roedd yr offer glanhau wedi'u storio a'u trefnu'n briodol. Mae'r darparwr cofrestredig yn cyflogi staff cadw tŷ dynodedig ar gyfer Tŷ Cwm Rhondda. Roedd yr ystafell ymolchi, y cawodydd a'r toiledau cyffredin yn lân ac yn dactylus a heb eitemau diangen wedi'u gadael yno. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo yn y gegin a'r ardaloedd golchi yn y ddwy ward. Roedd y cyfleusterau golchi dillad mewn cyflwr da; roedd yr ystafelloedd golchi a'r cypyrddau llinellau yn drefnus yn y ddwy ward.

Roedd yr ystadegau hyfforddiant a ddarparwyd gan y darparwr cofrestredig yn dangos bod 82% o'r staff wedi cael yr hyfforddiant rheoli heintiau diweddaraf. Er bod rhai o'r staff nad oeddent wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf wedi cofrestru ar gyfer cwrs, nid oedd pob un ohonynt.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan glinig Cilliad uned hylendid dwylo sy'n gweithio.

Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried gosod gwely archwilio.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant rheoli heintiau.

Maeth

Gwelsom fod y cleifion yn cael dewis o brydau bwyd. Gwelsom fod y fwydlen yn amrywiol a dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn gallu dewis eu bwyd. Roedd y bwydlenni hefyd yn amrywio yn ôl y tymhorau drwy gydol y flwyddyn.

Yn ogystal â'r prydau bwyd a ddarparwyd, roedd y cleifion yn gallu defnyddio'r gegin therapi galwedigaethol i baratoi eu prydau eu hunain ac archebu bwyd parod i'w ddosbarthu i'r ysbyty.

Dywedodd y staff wrthym fod darpariaeth ar gyfer cleifion â deiet penodol/arbennig, gan gynnwys figan, anoddefiad glwten a gofynion crefyddol.

Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wedi canmol y prydau bwyd a ddarperir yn yr ysbyty. Dywedodd y cleifion hefyd, pan roeddent wedi codi pryderon yn y gorffennol, bod y darparwr cofrestredig wedi gwrando arnynt a mynd i'r afael â nhw.

Roedd ffrwythau ffres ar gael ar y ddwy ward a gallai'r cleifion brynu byrbrydau o siop yr ysbyty neu yn y gymuned. Roedd gan bob claf gwpwrdd â chlo arno er mwyn storio ei fwyd.

Roedd y cleifion yn gallu paratoi diodydd cynnes neu oer eu hunain.

Rheoli meddyginiaethau

Yn gyffredinol, roedd y gwaith o reoli meddyginiaethau ar y wardiau yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel gyda chypyrddau ac oergelloedd meddyginiaeth dan glo a throlïau meddyginiaeth wedi'u rhwymo yn eu lle. Roedd mewnbwn rheolaidd gan y fferyllfa ac roedd meddyginiaethau'n cael eu harchwilio a oedd yn helpu'r broses o reoli, rhagnodi a rhoi meddyginiaeth yn yr ysbyty.

Gwelwyd tystiolaeth bod tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael ei wirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gweithgynhyrchydd.

Roedd trefniadau priodol ar gyfer storio a defnyddio cyffuriau a reolir a chyffuriau a all gael eu camddefnyddio; roedd y staff yn cyfrif am y rhain yn gywir ac yn eu gwirio'n ddyddiol.

Roedd siartiau'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth (MAR) a adolygwyd yn cynnwys enw'r claf, llun o'r claf a'i statws cyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd siartiau MAR yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan fyddai meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi, a nodwyd rheswm pan na fyddai meddyginiaeth yn cael ei rhoi. Roedd copïau o Dystysgrifau Cydsynio i Driniaeth er mwyn awdurdodi meddyginiaeth a ragnodwyd (ar gyfer anhwylder

meddygol) o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu cadw gyda'r siart MAR cyfatebol.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn diogelu oedolion a phlant a oedd yn agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn. Gweithiwr cymdeithasol yr ysbyty oedd yn arwain ar brosesau diogelu a threfniadau ymweld/cyswllt â phlant.

Roedd ystafelloedd i ymwelwyr yn y ddwy ward ac roedd ymwelwyr yn mynd i mewn i'r ystafelloedd hyn drwy ddrws arall fel nad oeddent yn mynd i mewn i'r ward yn uniongyrchol; gallai'r cleifion fynd i mewn i'r ystafell o'r ward.

Roedd gan yr ysbyty drefniadau ar gyfer ymweliadau gan blant. Roedd ystafell bwrpasol yn nerbynfa'r ysbyty a oedd yn golygu nad oedd unrhyw blant a oedd yn ymweld yn mynd ymhellach na derbynfa'r ysbyty. Fodd bynnag, roedd yr ystafell ymweld i blant yn fach ac nid oedd wedi'i dodrefnu na'i haddurno mewn ffordd a oedd yn groesawgar i blant.

Roedd yr ystadegau hyfforddiant a ddarparwyd gan y darparwr cofrestredig yn dangos bod 95% o'r staff wedi cael yr hyfforddiant e-ddysgu diweddaraf o ran diogelu plant ac oedolion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried gwneud gwelliannau i'r cyfleusterau ymweld ar gyfer plant.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal yn yr ysbyty ac roedd y staff wedi cofnodi pryd y digwyddodd y rhain er mwyn sicrhau bod yr offer yn bresennol ac o fewn y dyddiad.

Roedd amrywiaeth o dorwyr clymu ar gael ym mhob rhan o'r ysbyty rhag ofn bod argyfwng. Fodd bynnag, ar ward Cilliad, cafodd un aelod o'r staff anhawster cael gafael ar set o dorwyr clymu o fag brys y ward mewn ffordd amserol am nad oedd yn gwybod ble roeddent yn cael eu cadw yn y bag.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn gallu cael gafael ar offer brys, fel torwyr clymu, mewn ffordd amserol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i gleifion.

Roedd trefniadau llywodraethu'r ysbyty yn bwydo i mewn i drefniadau llywodraethu The Priory Group a oedd yn hwyluso proses ddwyffordd o fonitro a dysgu.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion cleifion yn electronig ac roedd cyfrineiriau yn cael eu defnyddio i atal mynediad anawdurdodedig ac achosion o dor-cyfrinachedd.

Adolygwyd sampl o gofnodion cleifion yn y wardiau. Roedd yn amlwg bod staff o'r tîm amlddisgyblaethol i gyd yn ysgrifennu cofnodion manwl a rheolaidd ar y cyfan, a oedd yn darparu dogfen fyw am bob claf a'i ofal.

Monitro'r Deddf Iechyd Meddwl

Adolygwyd dogfennau cadw statudol wyth claf ar wardiau Clydwch a Cilliad. Adolygwyd hefyd y prosesau llywodraethu ac archwilio a oedd ar waith i fonitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn ysbyty Tŷ Cwm Rhondda.

Roedd yr wyth set o ddogfennaeth statudol yn cadarnhau bod y cleifion yn cael eu cadw'n gyfreithlon yn ysbyty Tŷ Cwm Rhondda. Fodd bynnag, wrth graffu ar ffeiliau cadw'r cleifion ac adolygu'r prosesau sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf a Chod Ymarfer Cymru ar gyfer Deddf Iechyd Meddwl 1983, Diwygiedig 2016 (y Cod), gwelsom hepgoriadau sylweddol o ran ymarfer.

Nodwyd nad oedd agweddau sylfaenol ar y Ddeddf yn cael eu cwblhau yn ysbyty Tŷ Cwm Rhondda a rhai canfyddiadau a nodwyd yn ystod arolygiad o un o wasanaethau eraill Priory Healthcare, sef Tŷ Catrin. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Yr angen i roi copïau i'r cleifion o'u papurau cadw, paragraff 4.14

- Nid oedd un set o bapurau cadw wedi cael ei harchwilio i sicrhau ei bod yn gywir ac yn gyflawn, paragraffau 35.12 - 35.13
- Dim cofnod bod copi o'r adroddiad adnewyddu statudol yn cael ei roi i'r claf, paragraff 32.4
- Gwybodaeth i berthynas agosaf y cleifion, paragraffau 4.36 - 4.40
- Dim tystiolaeth bod cofnod yn cael ei gadw o alluedd i gydsynio i driniaeth, paragraff 24.34
- Cofnod bod cleifion yn cael gwybodaeth am eu hawliau mewn perthynas â meddyginiaeth, paragraff 24.37
- Nid oedd arwydd priodol wedi cael ei roi ar hen dystysgrifau o dan Adran 58 nad ydynt mwyach yn awdurdodi triniaeth i ddangos eu bod wedi'u canslo, paragraff 25.87
- Nid oedd cofnodion o ymgynghoriadau'r ymgynghoreion statudol â'r Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD) bob amser ar gael, paragraff 25.62
- Dim cofnod bod clinigydd cyfrifol y claf wedi rhoi gwybod i'r claf am ganlyniad ymweliad y Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn, paragraff 25.69

Nid oedd y templed a ddatblygwyd ar gyfer defnyddio triniaeth frys o dan Adran 62 yn cyd-fynd â'r Ddeddf gan ei fod yn cynnwys maen prawf ychwanegol ar gyfer defnyddio triniaeth frys. Rhaid adolygu'r templed er mwyn sicrhau bod y geiriad yn cyd-fynd â'r Ddeddf. Yn ogystal, gwelwyd dwy ffurflen triniaeth frys o dan Adran 62 a oedd wedi dod i ben ynghyd â'r siartiau MAR cyfatebol nad oedd arwydd arnynt i ddangos eu bod wedi'u canslo. Gallai hyn gamarwain y staff a gwneud iddynt roi meddyginiaeth nad yw wedi'i hawdurdodi mwyach.

Gwnaethom nodi gwrthdaro buddiannau posibl o ran aelodau panel Gwrandawriad Rheolwyr yr Ysbyty. Gwnaethom egluro'r achos penodol i gyfarwyddwr yr ysbyty i'w adolygu ar ôl ein harolygiad a chymryd camau priodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod digon o staff ar gael sy'n meddu ar wybodaeth briodol i gyflawni cyfrifoldebau statudol y darparwr cofrestredig o dan y Ddeddf a bod ymarfer yn dilyn y canllawiau a nodir yn y Cod.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau'r camau y mae wedi'u cymryd i sicrhau bod y meysydd a nodwyd yn y Cod yn cael eu cwblhau a'u monitro.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y templed ar gyfer defnyddio triniaeth frys o dan Adran 62 yn adlewyrchu geiriad y Ddeddf a'r Cod.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod system briodol ar waith i atal unrhyw wrthdaro buddiannau ymhlith aelodau Panel Gwrandawriad Rheolwyr yr Ysbyty.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Adolygwyd cynlluniau gofal chwe claf i gyd.

Roedd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn adlewyrchu parthau Mesur Cymru gydag amcanion mesuradwy ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Ar y cyfan, roedd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth unigol yn cyfeirio at gryfderau'r claf ac yn canolbwyntio ar wellhad, adsefydlu ac annibyniaeth. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r Cynlluniau yn cynnwys dyddiadau targed penodol nac yn nodi'r unigolyn a oedd yn gyfrifol am yr amcan dan sylw.

Er mwyn cefnogi cynlluniau gofal cleifion, roedd amrywiaeth o asesiadau cleifion er mwyn nodi a monitro darpariaeth gofal cleifion, ynghyd ag asesiadau risg sy'n nodi'r risgiau a nodwyd a sut i'w lliniaru a'u rheoli.

Roedd gan bob claf gynllun Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol. Roedd y ddau gynllun a adolygwyd gennym ar ward Clydwch wedi'u cwblhau i safon dda iawn. Fodd bynnag, wrth adolygu'r dogfennau gofal, nid oedd hi'n glir ble roedd y cynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol yn cael eu cadw yng nghofnodion pob claf, felly bu'n rhaid i'r staff ddod o hyd i'r cynlluniau hyn ar ein rhan.

Ar y cyfan, roedd cofnodion y staff yng nghofnodion electronig y cleifion o safon broffesiynol dda; fodd bynnag, nid oedd rhai cofnodion yn cynnwys digon o fanylion, yn enwedig am gyflwr meddyliol y claf, fel 'ymddangos yn isel ei ysbryd' neu 'yn ansefydlog o hyd'. Byddai cofnodion manylach sy'n egluro'r rhesymau dros gyflwr meddyliol y claf a'r ymyriadau y rhoddwyd cynnig arnynt yn helpu'r tîm amlddisgyblaethol i adolygu a chynllunio gofal y claf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod Cynlluniau Gofal a Thriniaeth y cleifion yn cynnwys amcanion CAMPUS ac yn nodi dyddiadau targed penodol a'r unigolyn sy'n gyfrifol am yr amcan dan sylw.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion clinigol manwl yn cael eu cadw, yn enwedig mewn perthynas â chyflwr meddyliol y cleifion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda yn ysbyty Tŷ Cwm Rhondda, a gefnogwyd gan The Priory Group. Arsylwyd ar dîm staff ymrwymedig a oedd yn deall anghenion y cleifion yn yr ysbyty yn dda.

Roedd cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol, goruchwyliaeth ac arfarniadau blynyddol yn uchel ar y cyfan. Gallai'r staff ddilyn cyrsiau ychwanegol i hybu eu datblygiad personol.

Roedd aelodau o staff yn cael eu recriwtio mewn proses agored a theg ac roedd gwiriadau cyflogaeth priodol yn cael eu cynnal cyn cyflogaeth ac yn rheolaidd yn ystod cyflogaeth.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Ar y cyfan, roedd systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion. Roedd y trefniadau hynny'n cael eu cofnodi fel y gellid eu hadolygu.

Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae angen gwneud gwelliannau sylweddol er mwyn sicrhau bod y darparwr cofrestredig yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf a bod ymarfer yn dilyn y canllawiau a nodir yn y Cod.

Ers ein harolygiad blaenorol, bu nifer o newidiadau i'r tîm rheoli yn ysbyty Tŷ Cwm Rhondda. Roedd Cyfarwyddwr Ysbyty newydd wedi cael ei benodi ychydig fisoedd cyn ein harolygiad yn ogystal â phenodiadau newydd ymhlith rhai o aelodau'r tîm amlddisgyblaethol.

Er bod nifer o newidiadau wedi digwydd yn ysbyty Tŷ Cwm Rhondda, drwy sgwrsio â'r staff, arsylwi ar ymgysylltiad a chyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol ac adolygu cofnodion y cleifion, roedd hi'n galonogol gweld tystiolaeth o waith tîm amlddisgyblaethol cryf. Gwnaeth y staff siarad yn ffafriol am ddatblygiad y tîm amlddisgyblaethol, gan nodi eu bod yn teimlo bod eu safbwyntiau'n cael eu clywed a'u parchu gan aelodau eraill o'r staff.

Roedd gan bob disgyblaeth bennaeth adran a oedd yn arwain y tîm ac yn cydweithio â'r penaethiaid adrannau eraill o fewn The Priory Group.

Siaradodd y staff yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth a'r cymorth a ddarparwyd gan gyfarwyddwr newydd yr ysbyty a chydweithwyr o bob disgyblaeth. Nodwyd gennym fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal cleifion i safon uchel.

Roedd yn gadarnhaol bod staff Tŷ Cwm Rhondda, drwy gydol yr arolygiad, yn fodlon derbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, roedd prosesau sefydledig ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau yn yr ysbyty.

Roedd hi'n amlwg bod y darparwr cofrestredig yn monitro pryderon a digwyddiadau yn lleol yn ysbyty Tŷ Cwm Rhondda ac yn gorfforaethol drwy systemau adrodd rheolaidd.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwnaethom adolygu'r drefn staffio yn ysbyty Tŷ Cwm Rhondda; nid oedd swyddi gwag i nyrsys cofrestredig a dim ond tair swydd wag i weithwyr cymorth gofal iechyd yr oedd y darparwr cofrestredig wrthi'n recriwtio staff ar eu cyfer.

Er mwyn gwneud iawn am unrhyw brinder staff a allai godi oherwydd swyddi gwag neu salwch, roedd gan y darparwr cofrestredig system banc staff ar waith; roedd hyn yn helpu i ddarparu gofal parhaus i'r cleifion.

Adolygwyd yr ystadegau o ran hyfforddiant gorfodol, goruchwyliaeth ac arfarniadau blynyddol ar gyfer y staff yn yr ysbyty a gwelsom fod cyfraddau cwblhau yn uchel iawn neu'n 100%. Roedd hi'n gadarnhaol nodi bod y staff yn cael hyfforddiant ychwanegol a oedd yn berthnasol i'w swyddi.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Esboniodd y staff y prosesau recriwtio a oedd ar waith yn ysbyty Tŷ Cwm Rhondda. Roedd yn amlwg bod systemau ar waith er mwyn sicrhau bod y broses recriwtio yn un agored a theg. Cyn cyflogaeth, roedd geirdaon staff yn cael eu derbyn, roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal ac roedd cymwysterau proffesiynol yn cael eu cadarnhau.

Roedd pob aelod o staff yn dilyn rhaglen sefydlu cyn dechrau gweithio ar wardiau'r ysbyty. Roedd tystysgrif sefydlu yn cael ei chadw yn ffeiliau'r staff parhaol ar ôl iddynt gwblhau eu hyfforddiant sefydlu corfforaethol.

Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cwblhau ar ôl pob cyfnod o dair blynedd o gyflogaeth ac roedd systemau ar waith i fonitro bod cofrestriadau proffesiynol yn gyfredol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysylltu a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [gwasanaethau iechyd meddwl](#) a [gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Un pwynt clymu a nodwyd mewn un ardal gyffredin	Risg i ddiogelwch y cleifion	Hysbyswyd uwch reolwr yn ysbyty Tŷ Cwm Rhondda	Cafwyd gwared ar y pwynt clymu yn ystod ein harolygiad

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Tŷ Cwm Rhondda
Ward/uned(au): Cilliad a Clydwch
Dyddiad arolygu: 5 - 7 Tachwedd 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad yw'r cleifion yn cyfyngu ar yr hyn y gellir ei weld drwy'r paneli arsylwi.	10. Urddas a pharch	Cynhaliwyd cyfarfodydd cymuned ar y ddwy ward er mwyn sicrhau bod y cleifion yn gwybod na ddylent gyfyngu ar yr hyn y gellir ei weld drwy'r paneli arsylwi. Yna gwnaethom ystyried adborth gan y cleifion am y goleuadau yn y coridorau. Dywedwyd bod y rhain yn tarfu ar gwsg y rhai nad ydynt yn	Kayleigh Brookes / Jamie Green	Cwblhawyd wythnos yn dechrau 12/01/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cysgu'n drwm. Mae'r adran Therapi Galwedigaethol wrthi'n gwneud gorchuddion ffabrig y gellir eu gosod yn sownd â Velcro. Gellir parhau i arsylwi heb darfu fawr ddim ar y cleifion pan fydd y goleuadau ymlaen.	Juliette Merrett	31.01.19
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y wybodaeth i'r cleifion ac ymwelwyr yn gyfredol.	9. Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion	Mae'r wybodaeth sydd ar gael i'r cleifion wedi cael ei diweddarau fel ei bod yn cynnwys cyfeiriad diweddaraf AGIC Ar ôl cael adborth, mae'r gwasanaeth wrthi'n adolygu'r holl wybodaeth sydd ar gael i ymwelwyr a'r cleifion. Mae hyn yn cynnwys y canllaw i gleifion, y llyfryn i berthnasau/gofalwyr ac adolygu'r pecynnau derbyn cleifion.	Kayleigh Brookes / Jamie Green Kayleigh Brookes Rhiannon Ham Hayley Grundy	16/11/18 31/03/2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr ystod lawn o wybodaeth yn cael ei harddangos yn y ddwy ward.	9. Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion	Mae hysbysfyrddau'r cleifion wedi cael eu diweddarau yn y ddwy ward. Mae'r hysbysfyrddau bellach yn fwy penodol er mwyn nodi dyddiadau	Kayleigh Brookes / Jamie Green	Cwblhawyd 16/11/18

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cyfarfodydd, sesiynau sydd i ddod a newyddion pwysig arall yn gywir.		
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddarparu amserlenni diwygiedig ar gyfer y gwaith i gael gwared ar y pwyntiau clymu a nodwyd.	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch 12. Amgylchedd	Cynhaliodd Priory Estates ymweliad â'r safle ar 06.12.18. Mae disgwyl i'r gwaith ddechrau yn gynnar yn 2019. Aros am gadarnhad o'r dyddiadau drwy e-bost. Gweler y negeseuon e-bost a lanlwythwyd yn cadarnhau'r ymweliad, y cais am waith a rhai dilynol am ddyddiadau.	Rhiannon Ham/ Priory Estates	Cynhaliwyd ymweliad dilynol Priory Estates ar 6.12.18 Gwaith i'w gwblhau erbyn 09.19
Rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau bod y gwaith gofynnol wedi cael ei gwblhau ar y drws tân yn ward Clydwch.	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch 12. Amgylchedd	Roedd y broblem yn ymwneud â mecanwaith y drws. Mae'r drws wedi cael ei wasanaethu ac mae bellach yn gweithio'n briodol.	Ian Hickman	Cwblhawyd 18.10.18
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan glinig Cilliad uned hylendid dwylo sy'n	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Roedd y swyddog cynnal a chadw wedi gosod uned newydd yn lle'r	Ian Hickman	08.11.18

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gweithio.		uned ddiffygiol. Atgoffwyd y staff i roi gwybod am unrhyw ddiffygion/toriadau yn y cofnod cynnal a chadw mewn ffordd amserol. Mae poteli sebon hylifol ar gael hefyd i'r staff eu defnyddio pe bai uned hylendid dwylo yn torri.		
Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried gosod gwely archwilio.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Gofynnwyd am glinig i nyrs y practis ac ystyriwyd y cais gan yr adran Ystadau. Cynhaliwyd ymweliad â'r safle ar 6.12.18 pan gytunwyd y dylid adnewyddu'r piazza er mwyn cynnwys clinig i nyrs y practis ac ystafell ymlacio. Wedi derbyn e-bost yn cadarnhau'r cynnig ar gyfer y gwaith arfaethedig yn ysbyty Tŷ Cwm Rhondda. Aros am gadarnhad o'r amserlen.	Rhiannon Ham/ Priory Estates	09.19
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau eu hyfforddiant	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae pob aelod o'r staff wedi cael ei glustnodi i gael hyfforddiant rheoli	Mandy Ferguson	8.11.18

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
rheoli heintiau.		heintiau drwy'r academi Mae angen i ddau aelod o'r staff gwblhau modiwl gloywi. Gwnaed cais i gwblhau hyn erbyn diwedd mis Ionawr 2019	Rhiannon Ham	31.01.19
Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried gwneud gwelliannau i'r cyfleusterau ymweld ar gyfer plant.	11. Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed	Mae eiddo'r cleifion wedi cael ei symud ac mae dodrefn newydd wedi cael eu prynu. Bydd y swyddog cynnal a chadw yn ailaddurno'r ystafell ac yn adeiladu mainc er mwyn sicrhau bod mwy o le eistedd a mwy o le storio ar gael. Nid oes ystafell briodol arall ar y safle i gynnal ymweliadau â phlant. Felly, rydym yn ymdrechu i wneud y gorau o'r lle sydd ar gael.	Rhiannon Ham Ian Hickman	Cwblhawyd 26.11.18 31.01.19
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn gallu cael gafael ar offer brys, fel torwyr clymu, mewn ffordd amserol.	16. Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig	Mae pob aelod o'r staff yn gwybod ble mae'r offer brys yn cael ei gadw. Roedd hyn wedi tynnu sylw at y ffaith bod angen cymorth ar un aelod o'r	Rhiannon Ham Kayleigh Brookes	30.11.18

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		staff. Mae torwyr clymu wedi'u harddangos yn glir ar y byrddau iechyd a diogelwch yn y ddwy ward ac yn y derbynfeydd.		
Mae angen i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod digon o staff ar gael sy'n meddu ar wybodaeth briodol i gyflawni cyfrifoldebau statudol y darparwr cofrestredig o dan y Ddeddf a bod ymarfer yn dilyn y canllawiau a nodir yn y Cod.	Monitro'r Ddeddf lechyd Meddwl	Gwnaed cais am hyfforddiant i'r nyrsys ynghylch craffu ar waith papur y Ddeddf lechyd Meddwl.	Rhiannon Ham	06.19
Rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau'r camau y mae wedi'u cymryd i sicrhau bod y meysydd a nodwyd yn y Cod yn cael eu cwblhau a'u monitro.	Monitro'r Ddeddf lechyd Meddwl	Mae'r darparwr wedi adolygu adborth er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cyd-fynd â'r holl feysydd a nodwyd yn y cod. Bydd gweinyddwr y Ddeddf lechyd Meddwl yn sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw o ran pryd y rhoddir dogfennaeth i'r cleifion, pryd y rhoddir gwybodaeth i'r cleifion neu'r gofalwyr.	Rhiannon Ham	19.11.18

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Bydd gweinyddwr y Deddf Iechyd Meddwl yn sicrhau bod yr holl ddogfennau cyfreithiol yn cael eu lanlwytho i'r system nodiadau gofal. Bydd Clinigydd Cyfrifol yn sicrhau bod pob trafodaeth yn cael ei dogfennu mewn perthynas â phenderfyniadau SOAD.		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y templed ar gyfer defnyddio triniaeth frys o dan Adran 62 yn adlewyrchu geiriad y Ddeddf a'r Cod.	Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Yn dilyn adborth, cafodd dogfen Adran 62 ei diweddarau'n syth.	John Harris	Cwblhawyd 09.11.18
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod system briodol ar waith i atal unrhyw wrthdaro buddiannau ymhlith aelodau Panel Gwrandawriad Rheolwyr yr Ysbyty.	Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Nid oedd y gwasanaeth yn ymwybodol o unrhyw broblem yn ymwneud ag aelodau'r panel adeg yr arolygiad. Mae'r broblem wedi cael ei datrys bellach ac, yn y dyfodol, caiff cyfansoddiad y panel ei ystyried.	John Harris	Cwblhawyd 09.11.18
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod Cynlluniau Gofal a Thriniaeth y cleifion yn	Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010	Cynhaliwyd adolygiad o ran dyddiadau targed penodol.	Neetha Byrappa	02.01.19

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cynnwys amcanion CAMPUS ac yn nodi dyddiadau targed penodol a'r unigolyn sy'n gyfrifol am yr amcan dan sylw.		Yn y dyfodol, bydd nyrsys sylfaenol yn sicrhau bod nodau byrdymor a hirdymor yn cael eu hadolygu'n benodol mewn perthynas â nodau presennol y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth. Mae dogfen ar gael lle caiff nodau hirdymor a byrdymor eu hadolygu a'u trafod yn ystod yr Adolygiad Gofal Unigol gyda'r claf. Mae'r ddogfen hon hefyd yn nodi pa aelod o'r tîm sy'n gyfrifol am fonitro pob amcan.	Kayleigh Brookes / Jamie Green Neetha Byrappa	Adolygu bob mis 02.01.19
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion clinigol manwl yn cael eu cadw, yn enwedig mewn perthynas â chyflwr meddyliol y cleifion.	Monitro Mesur lechyd Meddwl (Cymru) 2010	Mae cymorth a chanllawiau ynghylch cofnodion clinigol wedi cael eu rhannu â'r tîm. Wrth adolygu'r cynllun gweithredu, cytunwyd y byddai pob disgyblaeth yn ymhelaethu ar y geiriau "wedi setlo" neu "settled" yn Saesneg. Byddent hefyd yn sicrhau bod ymgysylltiad yn cael ei gofnodi'n glir yn ogystal â datganiadau arsylwi. Bydd teithiau ansawdd dogfennau	Rhiannon Ham Neetha Byrappa Kayleigh Brookes / Jamie Green	02.01.19 02.01.19 02.01.19

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Rheolwyr y Wardiau a'r Nyrsys Cyfrifol yn cael eu teilwra i ganolbwyntio'n benodol ar hyn yn ysbyty Tŷ Cwm Rhondda		

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Rhiannon Ham
Teitl swydd: Cyfarwyddwr yr Ysbyty
Dyddiad: 10 Ionawr 2019